

Y Nadolig

Buan iawn y daw cyfnod y Nadolig a'i ddathliadau. Er mwyn i ni allu cyhoeddi holl gyfarfodydd y Nadolig yn Gronyn, a wnewch chi roi gwybod amdanynt i'r Gweinidog mor fuan â phosibl. Bydd yn dda medru rhoi sylw i'r cyfan mewn da bryd.

Yn ddelfrydol, anfonwch y manylion ar bapur neu mewn neges ebost. Mae'r manylion cyswllt ar y dudalen gyferbyn.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Nos Lun, Tachwedd 28: Cymdeithas Undebol Deiniolen yn Nhŷ Elidir am 7.00 o'r gloch. Cerddoriaeth y Nadolig yng nghwmni Annette Bryn Parri.

Dydd Sul, Rhagfyr 4: Bydd oedfa am 3.30 o'r gloch yng ngofal y Gweinidog.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Nos Fawrth, Tachwedd 29: Cyfarfod Efe i'r Ieuentid yn Yr Institiwt, Llanrug am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Rhagfyr 4: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan Nerys Griffith ac am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Geraint Roberts. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

Y mis nesaf - Deiniolen

Tachwedd 27

5.00 p.m. - Y Parchg Eifion W Williams

Rhagfyr 4

3.30 p.m. - Y Gweinidog

Rhagfyr 11

5.00 p.m. - Mr Robert Morris

Rhagfyr 18

3.30 p.m. - Oedfa Nadolig

REHOBOTH

Dydd Sul, Rhagfyr 4: Y Gweinidog am 2.00 o'r gloch.

BETHLEHEM

Dydd Llun, Tachwedd 28: Clwb Golau (Clwb Plant) am 4.00 o'r gloch (tan 5.00).

Nos Fercher, Tachwedd 30: Cynhelir Ffair Nadolig Bethlehem yn y festri am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Rhagfyr 4: Yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch ac oedfa am 2.00 o'r gloch yng ngofal y Parchg Ddr Elwyn Richards.

CARMEL

Dydd Llun, Tachwedd 28: Y Clwb Gwau am 2.00 o'r gloch.

Nos Wener, Rhagfyr 2: Dwylo Prysyr am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Rhagfyr 4: Yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CYNLLUN EFE

Dydd Llun, Tachwedd 28: Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caethro am 10.30 o'r gloch.

Nos Fawrth, Tachwedd 29: Cyfarfod i Ieuentid hŷn yn yr Institiwt, Llanrug am 6.30 o'r gloch.

Y mis nesaf - Llanberis

Tachwedd 27

10.30 a.m. - Oedfa Deulu

Rhagfyr 4

10.00 a.m. - Mrs Nerys Griffith

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Y Parchg Geraint Roberts

Rhagfyr 11

10.00 a.m. - Y Gweinidog

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Gwasanaeth Undebol "Naw Llith a Charol" yn Capel Coch



EGLWYS BRESBYTERIAID CYMRU
Gofalaeth Bangor a'r Cynffinau

Gweithwr Plant, Ieuentid a Theuluoedd yn ardal Bangor

Mae Gofalaeth Bangor a'r Cynffinau yn awyddus i benodi Gweithwr Plant ac Ieuentid i ddarparu gwaith plant ac ieuentid yn eiddoedd yr eglwys a'r hysbysydd gwaith o ymestyn y dystiolaeth Cristnogol o lewyl y Cymunedau.

Orau - 35 awr yr wythnos
Cytundeb - 3 blynedd, gyda'r 6 mis cyntaf yn gyfnod prawf
Cofre - Graeddi 19 - 22 (0189288 - 021 700) ynghyd â lletens 9 a chyflwr ymuno a Chryslun Pierswen EBC.

Mae'n swydd hon yn amodol ar ddatgaliad DBS marw a dau arda boddiadol. I gael digidol swydd a hysbysu gwaith plant ac ieuentid i'r swydd, rhofn: 02920 627465. Am sgwrs anffurfiol, cyswllt â Cynffinau Owen ar 01248 364008.

Mae'n ofnriad galweddiad bod ymgybyw'r ar gyfer y swydd hon yn medru siarad Cymraeg ac yn Gristion.

Dyddiad Cau: 4 o'r gloch, Dydd Gwener, 9 Rhagfyr 2016. Dyddiad cyfnewidau: Bore Dydd Lun 19 Rhagfyr 2016.

Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 707: Dydd Sul, 27 Tachwedd, 2016

Cwestiwn o bwys

(neu fel y dywed Mr Owen, 'yn gwbl hanfodol') cael gweithiwr sy'n siarad Cymraeg ar gyfer eglwys Cymraeg, onid yw'r un mor rhesymol mynnu mai Cristion sydd ei angen mewn eglwys Cristnogol? Yn enw pob rheswm, pam ddylai'r fath ofyniad fod yn annisgwyl i neb? Beth arall a ddisgwylid?

Mae Mr Owen yn mynd yn ei flaen i gwestiynu defnydd y Presbyteriaid o'r termau 'Cristion' a'r 'dystiolaeth Gristnogol' ac i golbio pobl a glywyd ar raglen grefyddol ar Radio Cymru yn eu galw eu hunain yn Gristnogion. Nid ymffrost ar ein rhan, na chwaith feirniadaeth ar neb arall, yw i ni arddel yr enw 'Cristion'. Ac yn ei sylwadau clo, sy'n cymharu'r hysbyseb arbennig hwn ag un a welwyd mewn papur lleol yn Belfast yn 1968 (*Baker's Roundsman required. Christians only need apply*) mae Mr Owen yn annheg ac yn anghyfrifol. Eglwys, nid becws, oedd yn hysbysebu yn *Y Cymro!*

Mae'n werth nodi fod Gwilym Owen yn ateb ei gwestiwn ei hun. Ac rwy'n falch o ddweud fy mod yn cytuno ag ef! Yn ei farn ef, Cristion yw'r un sy'n 'credu yn yr Arglwydd Iesu Grist'. Dyna am ei gwerth fy marn innau. Ond wedi dweud hynny, mae'n rhesymol ac yn hanfodol fod y geiriau yn ystyrlon i'r naill a'r llall ohonom, a bod y ddau ohonom - a phawb arall - yn dweud yn syml beth yw ystyr y 'credu' hwn a phwy yw'r 'Arglwydd', yr 'Iesu', y 'Crist' hwn. Fel arall, onid ystrydeb wag fydd ein geiriau o gyffes?

Gydol gyrfa hir a disglair fel gohebydd, newyddiadurwr a cholofnydd, mae Gwilym Owen wedi gofyn cannoedd o gwestiynau. Mae wedi holi a stilio; mae wedi procio a phryfocio pob math o bobl am bob math o bynciau pwysig a dibwys, difrifol a doniol. Mae wedi tyrchu, wedi codi gwrychyn ac wedi mynd dan groen. Mae wedi diddanu a goleuo; mae hefyd wedi cynddeiriogi a diflasu, yn arbennig felly pan fyddai pobl yn gweld peth o'r holi a rhai o'i sylwadau yn annheg ac afresymol. Ond mae bob amser wedi mynnu mynd at wraidd stori a cheisio'r atebion i gwestiynau pwysig y byddai llawer o'i gydweithwyr o bosibl yn ofni eu gofyn.

Yn ei golofn wythnosol yn rhifyn diweddaraf cylchgrawn *Golwg* mae Mr Owen yn gofyn un o'r cwestiynau pwysicaf y gall neb ei ofyn sef, "Be' ydy Cristion go-iawn?" Hysbyseb a osodwyd ar dudalennau *Y Cymro* a sbardunodd y cwestiwn; hysbyseb gan Eglwys Bresbyteriaid Cymru am swydd Gweithiwr Plant, Ieuentid a Theuluoedd yng Ngofalaeth Bangor a nodai fod angen i'r sawl a fyddai'n ymgeisio am y swydd 'fedru siarad Cymraeg a [bod] yn Gristion'. Dywed Mr Owen ei bod yn 'hollol dderbyniol' mynnu bod yr ymgeiswyr yn medru siarad Cymraeg er mwyn gwasanaethu mewn eglwys Cymraeg. Yr hyn sydd 'yn annisgwyl a dweud y lleiaf' iddo yw'r ail gymal sy'n nodi fod angen i unrhyw ymgeisydd fod yn Gristion. Yn ôl pob rheswm, os yw'n dderbyniol

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnysaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Balm o Salm



'Bum yn disgwyl a disgwyl wrth yr ARGLWYDD, ac yna plygodd ataf a gwranddo fy nghri. Cododd fi i fyny o'r pwll lleidiog, allan o'r mwd a'r baw; gosododd fy nhraed ar graig, a gwneud fy nghanau'n ddiogel. Rhoddodd yn fy ngenau gân newydd, cân o foliant i'n Duw; bydd llawer, pan welant hyn, yn ofni ac yn ymddiried yn yr ARGLWYDD (Salm 40:1-3).

Heddiw

Oedfa Deulu sydd yn Capel Coch am 10.30 o'r gloch. Diolch i Susan Williams am drefnu ac arwain yr oedfa heddiw.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Eifion Williams, Llanfairfechan. Croeso iddo unwaith eto a diolch am ei wasanaeth.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Bydd yr Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch, a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Nid oes oedfa yn Nant Peris heddiw.

Cofion

Marwolaeth

Bu farw Mrs Anne Evans, 17 Ciltrefnus, Gerlan yn Ysbyty Gwynedd ddydd Mercher, Tachwedd 23, yn 78 mlwydd oed. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i phriod, Arfon a'i phlant, Carolyn, Ian a Paula, ac â'i chwaer Mair a'r teulu cyfan yn eu colled.

Cynhelir y gwasanaeth angladd yng Nghapel Carmel am 11.00 o'r gloch ddydd Mercher, Tachwedd 30.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Mrs Bet Williams, 21 Stryd yr Wyddfa, Llanberis yn ei phroffedigaeth o golli ei brawd yng nghyfraith, Mr John Morgan, Bontnewydd, a fu farw ddydd Sadwrn, Tachwedd 19, wedi gwaeledd blin dros gyfnod o bymtheng mlynedd. Bydd rhai o aelodau Carmel yn cofio John, gan mai yn Rachub y cafodd ei fagu. Cydymdeimlwn hefyd â'i briod Gaynor a'i blant Ian a Lisa a'r teulu cyfan.

Efe

Wedi'r cyfarfod a gafwyd bythefnos yn ôl, bydd noson arall i 'bobl ifanc hyn' yn Yr Institiw, Llanrug am 6.30 o'r gloch y nos Fawrth nesaf yma, Tachwedd 30.

Ffair Nadolig Bethlehem

Cynhelir Ffair Nadolig Capel Bethlehem, Talybont yn y festri am 6.30 o'r gloch nos Fercher yr wythnos hon, Tachwedd 30.

Bydd yno groeso cynnes i chi eleni eto, ac edrychir ymlaen at weld cymaint â phosibl yn dod yno i gefnogi'r ymdrech.

Ffair Nadolig

Cynhaliwyd Ffair Nadolig Capel Coch yn y festri ddydd Mercher diwethaf.

Diolch yn fawr iawn am yr holl waith paratoi ac am y nwyddau a dderbyniwyd ar gyfer yr hamperi a'r byrddau gwerthu. Diolch i bawb a fu'n gweithio i sicrhau llwyddiant y Ffair, yn trefnu'r stafell, gwneud y baned, gofalu am y byrddau, derbyn yr arian wrth y drws, a'r cyfan arall a wnaed. A diolch i bawb a ddaeth i fwynhau paned a sgwrs ac i wario! Caed elw o £460 tuag at Gronfa Adnoddau'r Capel, a gwerthfawrogi'r gefnogaeth yn fawr.

DCDC

Bydd rhaglen Nadolig 'Dechrau Canu Dechrau Canmol' yn cael ei recordio yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis nos Sul nesaf, Rhagfyr 4. Caiff ei darlledu ar S4C Ddydd Nadolig.

Mae gwahoddiad wedi ei estyn i aelodau eglwysy'r ardal i ymuno yn y canu yn yr Eglwys ar Ragfyr 4. Gofynnir i bawb gyrraedd mewn da bryd; agorir drysau'r Eglwys am 6.30 o'r gloch a bwriedir cychwyn recordio am 7.00 o'r gloch.

Cefin Roberts, Bangor fydd yn arwain y canu.

Mae trefnwyr y rhaglen yn apelio am eich cefnogaeth er mwyn sicrhau eglwys lawn os y bosibl.

Bocsys Nadolig

Danfonwyd y bocsys esgidiau a gafwyd ar gyfer Apel Nadolig Teams4U i Fae Colwyn ddydd Mercher diwethaf.

Pan oeddem ni yno, roedd criw o bobl yn brysur yn derbyn a phacio'r holl focsys unigol mewn bocsys cardfwrdd mawr, yn barod i'w hanfon i'r brif ganolfan gasglu yn Wrecsam. O fore Llun tan bnawn Gwener, roedd bocsys yn cyrraedd o bob cwr o'r Gogledd-orllewin, a faniau'n dod bob nos i'w cludo i Wrecsam. Roedd dros 2,500 wedi eu hanfon erbyn nos Fawrth, ac yr oedd y trefnwyr yn hyderus y bydden nhw wedi derbyn ac anfon hyd at 8,000 o focsys erbyn nos Wener. Bydd pob bocs a anfonwyd trwy Fae Colwyn – yn cynnwys ein bocsys ni – yn cael eu hanfon i blant a theuluoedd yn Romania.

Diolch yn fawr iawn i bawb a lanwodd focs neu a anfonodd rodd ariannol at y gwaith hwn. Gwerthfawrogi'r haelioni yn fawr.

Cydymdeimlo

Bydd amryw o bobl Llanberis yn cofio Mrs Mair Lloyd Price, Dolwyddelan, a fu farw ar Dachwedd 16, yn 73 mlwydd oed. Fe'i magwyd yn Stryd Ceunant a bu'n aelod ffyddlon yn Capel Coch cyn priodi a symud i Ddolwyddelan. Fel 'Mair Pen Bryn' y byddai llawer yn ei hadnabod gan iddi weithio yn siop Pen Bryn am flynyddoedd. Cydymdeimlwn â'i theulu, ac â'i chyfeillion yn Llanberis.

Y Gymdeithas

Cawn groesawu Annette Bryn Parri i Gymdeithas Undebol Deiniolen yn Nhy Elidir nos yfory, nos Lun, Tachwedd 28.

Bydd Annette yn cyflwyno noson o 'Gerddoriaeth y Nadolig'. Mae croeso i chi ymuno â ni am 7.00 o'r gloch. Dowch i fwynhau'r arlwy.